

## Adroddiad am Adolygiad Arfer Plant

### Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

#### Adolygiad Arfer Plant Estynedig

Parthed: BDPRhCBM 02/2016

### Amlinelliad cryno o amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

*I'w cynnwys yma: -*

- *Cyd-destun cyfreithiol o ganllaw mewn perthynas â pha adolygiad a gynhelir*
- *Amgylchiadau yn arwain at yr adolygiad*
- *Cyfnod a adolygwyd a pham*
- *Llinell amser gryno o ddiwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad*
- 

#### **Cyd-destun cyfreithiol**

Comisiynwyd Adolygiad Arfer Plant Estynedig gan Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg (BRhDPCBM) ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiad Arfer Plant ac Oedolion yn unol â Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru 2014, canllaw Adolygiadau Arfer Plant cyfrol 2. Cafodd y meini prawf ar gyfer yr Adolygiad hwn eu diwallu dan adran 3.12 y canllaw uchod sef:

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad arfer plant estynedig mewn unrhyw un o'r achosion canlynol, o fewn ardal y Bwrdd, os gwyddys neu yr amheuir fod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso a bod y plentyn wedi:

- marw; neu
- wedi cael anaf sy'n peryglu bywyd; neu
- wedi cael anaf difrifol a pharhaol sy'n effeithio ar ei iechyd neu ei ddatblygiad;

ac,

roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu yn blentyn oedd yn derbyn gofal (gan gynnwys person sy'n gadael gofal dan 18 mlwydd oed) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod gan y plentyn anaf difrifol a pharhaol sy'n effeithio ar ei iechyd a'i ddatblygiad.

Mae'r cylch gorchwyl i'r adolygiad hwn yn Atodiad 1.

## **Y Digwyddiad a Arweiniodd at yr Atgyfeiriad**

**Mawrth 2016** – Roedd y plentyn sy'n destun yr adolygiad hwn yn dair blwydd oed pan gafwyd hyd iddo gan sibling hŷn yn crogi yn y cartref. Roedd y plentyn yn anymwybodol ac fe'i disgrifiwyd yn welw ac yn ddifywyd ar ôl cael ei ddal mewn tegan meddal a oedd yn hongian o reilen uchaf gwely bync. Roedd y plentyn yn y cartref gyda'i fam a'i siblingiaid ar adeg y digwyddiad. Gofynnwyd i sibling y plentyn ffonio am ambiwlans, ond nid oedd y ffôn yn gweithio. Aeth y fam i'r tu allan a chafodd ail alwad am ambiwlans ei gwneud, ond dim ond y lleoliad cafodd ei gadarnhau cyn i'r fam adael y safle gyda'r plentyn ac un o'r siblingiaid. Cafodd y drydedd alwad ei gwneud bum munud yn ddiweddarach o gyfeiriad a oedd yn perthyn i dad-cu'r plentyn. Roedd y drydedd alwad hon yn cynnwys mwy o wybodaeth fanwl, a galluogodd y parafeddygon i roi sylw meddygol brys cyn cludo'r plentyn i'r ysbyty. Gwellodd y plentyn yn llwyr.

Pan aeth swyddogion yr heddlu i safle'r digwyddiad, roedd pryderon sylweddol ynghylch cyflwr y cartref, yn bennaf y prinder bwyd, llawer o glêr meirw yn y gegin, dim papur tŷ bach na brwsys dannedd a chegin fach dros dro yn un o'r ystafelloedd gwely. Ystyriodd yr heddlu ddefnyddio Pwerau Diogelu Argyfwng i ddiogelu'r plant. Fodd bynnag, roedd y Gwasanaethau Plant wedi trefnu i'r plant aros gyda'u mam-gu am y noson.

Roedd pryderon yn y gorffennol am gam-drin domestig yng nghartref y teulu. Mae cofnodion yn dangos yr ymwelodd gweithiwr cymdeithasol â'r cartref yng nghanol mis Mawrth 2016. Roedd cofnod y gweithiwr cymdeithasol o'r ymweliad â'r cartref a drefnwyd yn disgrifio anhawster wrth fynd i mewn i'r tŷ oherwydd '*cwprdd dillad ar ei ochr yn y cyntedd*'. Oni bai am yr ystafell fyw, nid aeth y gweithiwr cymdeithasol i mewn i unrhyw ystafell arall yn y tŷ yn ystod yr ymweliad hwn.

Er bod y gweithwyr proffesiynol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod strategaeth a alwyd mewn ymateb i'r digwyddiad hwn yn mynegi eu pryderon ynghylch y trais domestig, diffyg ymgysylltiad o ochr y fam â gwasanaethau ac o ran dangos '*...ychydig iawn o barodrwydd i wneud newidiadau*', cytunwyd nad oedd '*unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod (y digwyddiad hwn) yn unrhyw beth ar wahân i ddamwain*'. Mae'r cofnodion i'r cyfarfod strategaeth yn nodi, '*Ni ellir priodoli'r ddamwain hon, a oedd bron yn angheuol, yn uniongyrchol i'r fam er bod gweithwyr proffesiynol yn teimlo ei bod yn arwydd o'i diffyg ffiniau, diffyg goruchwyliaeth a'i methiant i ateb anghenion ei plant yn ddiogel*'. Oherwydd hynny, cytunwyd bod y plentyn wedi cael damwain a allai fod wedi'i ladd ac argymhellwyd gwneud atgyfeiriad o ran Adolygiad Arfer Plant.

## **Digwyddiadau Allweddol Cyn y Cyfnod dan Adolygiad**

Roedd Gwasanaethau Plant Caerdydd yn ymwybodol o'r teulu hwn ers 2007 yn dilyn adroddiadau'r heddlu mewn perthynas â diffyg goruchwyllo'r plant yn briodol. Yn ystod yr ymchwiliad, gwadodd mam y plentyn y cyhuddiadau a wnaed yn ei herbyn - ac ni chafwyd unrhyw gamau pellach gan y Gwasanaethau Plant yn sgil hyn. Cafwyd pryderon tebyg

mewn atgyfeiriad pellach yn 2007 am oruchwyliaeth y plant yn ogystal â chyhuddiadau mewn perthynas â'r fam yn camddefnyddio sylweddau. Cynhaliodd Gwasanaethau Plant asesiad cychwynnol mewn ymateb i'r ail atgyfeiriad – canlyniad hwn oedd peidio â chymryd camau pellach a chau'r achos. Ym mis Rhagfyr 2012, cafodd y Gwasanaethau Plant atgyfeiriad yn dilyn digwyddiad domestig rhwng rhieni'r plentyn. Roedd yr asesiad cychwynnol a gwblhawyd yn dilyn yr atgyfeiriad hwn wedi tynnu sylw at nifer o bryderon eraill mewn perthynas ag anghenion datblygu'r plentyn, eu gallu fel rhieni a ffactorau amgylcheddol. Oherwydd nifer y pryderon a nodwyd, aeth yr achos ymhellach ac ym mis Chwefror 2013, daeth y plant yn destun cynlluniau amddiffyn plant ar ôl eu cofrestru ar Gofrestr Amddiffyn Plant dan y categorïau Cam-drin Emosiynol ac Esgeuluso.

Er mwyn helpu'r teulu i sefydlu trefn ddyddiol yn y cartref a chynnig cyngor ar rianta, darparodd Gwasanaethau Plant Weithiwr Cymorth Teulu – a oedd yn ymweld â'r teulu yn rheolaidd. Roedd Gweithiwr Cymorth Tenant ar gael i helpu gyda materion tai'r teulu, anogwyd y fam i geisio cymorth gan y meddyg teulu ar gyfer ei hanghenion iechyd ac atgyfeiriwyd y tad at wasanaethau i gael cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Fel modd o ddiogelu'r plant rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, cafodd cyswllt y tad ei reoli a'i gefnogi gan eulodau'r teulu. Llofnododd pob parti Gytundeb Ysgrifenedig i'r diben hwnnw. Yn ystod y cyfnod yr oedd y cynlluniau amddiffyn plant ar waith, roedd cyflwr y cartref yn amrywio, roedd ymgysylltiad y rheini â gwasanaethau cymorth yn achlysurol a chafodd Gwasanaethau Plant 17 adroddiad gan yr heddlu a oedd yn ymwneud â cham-drin domestig rhwng y rheini ac aelodau eraill y teulu. Roedd y plant yn bresennol yn ystod pob un o'r digwyddiadau domestig. Tua'r adeg honno, mae nodiadau ffeil Gwasanaethau Plant yn nodi bod y swyddog Gwasanaethau Cymorth ac Ymyriadau i Deuluoedd yn codi pryderon am gyflwr gwael y cartref ac nad oedd y fam '*yn wylidwrus wrth oruchwyllo*' y plant. Yn ogystal, cafwyd nifer o atgyfeiriadau dienw gan bobl yn y gymuned a oedd yn tynnu sylw at bryderon mewn perthynas â dadleuon yn y cartref, a'r ddau riant yn gweiddi ac yn defnyddio iaith gref tuag at y plant. Erbyn mis Mawrth 2014, roedd Cytundeb Ysgrifenedig ar waith i amddiffyn y plant rhag problemau pellach. Parhaodd y cynllunio amddiffyn plant ac ym mis Ebrill 2014, dechreuodd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG). Erbyn mis Hydref 2014, roedd y fam wedi cyfaddef ei bod wedi mynd yn groes i'r Cytundeb Ysgrifenedig ac roedd nodiadau'r Gwasanaethau Plant o'r adeg honno yn dangos bod straeon y fam yn anghyson. Er bod y nodiadau ffeil yn dangos bod y gweithiwr cymdeithasol wedi trafod mynd yn groes i'r cytundeb â'r fam yn ystod ymweliad amddiffyn plant, nid yw'r nodiadau'n dangos y camau gweithredu a wnaed o ganlyniad.

Wrth gydymffurfio ag amodau ei drwydded am drosedd flaenorol (Meddu ar gyffuriau Dosbarth A), erbyn mis Gorffennaf 2014, roedd gweithwyr proffesiynol a aeth i'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn cytuno y gallai'r tad helpu'r fam gyda'r plant yn y cartref '*am gyfnod o 4 wythnos dan oruchwyliaeth*'. Roedd y swyddfa brawf yn cefnogi'r penderfyniad hwn drwy gytuno i amrywio amodau trwydded y tad i'w alluogi i gael mynediad dyddiol i gartref y teulu. Daeth y broses ACG i ben ym mis Awst 2014 yn sgil y '*gwelliannau*' (presenoldeb da yn yr ysgol, cyflwr y cartref wedi gwella a sylwadau da am sut roedd y fam yn cyfathrebu â'r plant). Parhaodd y tad i gydymffurfio ag amodau ei drwydded tan iddi ddod i ben ym mis Hydref 2014. Cadwyd enwau'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant tan ddiwedd mis Ebrill 2015.

**Ddigwyddiadau Allweddol yn Ystod y Cyfnod dan Adolygiad**

**Ebrill 2015** – Galwad 999 i'r heddlu wedi gorffen yn sydyn ac wedi'i olrhain i gyfeiriad cartref y teulu. Roedd y tad wedi meddwi ac roedd ganddo anafiadau a gafwyd wrth ymladd yn y dafarn yn gynharach. Daeth yr alwad 999 o anghydfod rhwng y tad a sibling y fam. Cafodd y tad ei arestio am fod yn 'feddw ac afreolus' a'i gyhuddo yn ddiweddarach o'r drosedd hon. Rhannodd yr heddlu'r wybodaeth am y digwyddiad â Thîm Dyletswydd Brys y gwasanaethau cymdeithasol a chytunodd y ddau barti fod y fam wedi ymddwyn yn briodol i ddiogelu'r plant. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

**Ebrill 2015** – Y fam yn gwneud dwy alwad 999 i'r heddlu yn ystod y dydd i roi gwybod bod y tad y tu allan i gartref y teulu ac yn achosi problemau. Y fam yn honni bod y tad yn destun amodau mechniaeth a oedd yn nodi nad oedd yn cael bod yn agos at y lleoliad. Y fam yn gwrthod rhoi datganiad ac ni wnaeth yr heddlu gymryd unrhyw gamau pellach.

**Ebrill 2015** – Cynhadledd Adolygiad Amddiffyn Plant Amlasiantaeth. Roedd y tad yn bresennol, ond nid y fam. Roedd adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol yn nodi bod y rhieni wedi gwneud newidiadau cadarnhaol. Er enghraifft, roedd cyflwr y cartref wedi gwella hyd at safon '*foddhaol*'; roedd '*gwelliannau enfawr o ran presenoldeb yn yr ysgol...mae'r ddau rhiant wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau a chadw'r apwyntiadau, ac mae gweithwyr proffesiynol wedi nodi gwelliannau ym mhob maes*'. Penderfynwyd yn unfrydol i dynnu enwau'r plant oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gan reoli'r achos ar sail 'plentyn mewn angen'.

**Ebrill 2015** – Cofnodion Goruchwyliaeth Gwasanaethau Plant. Mae nodiadau ffeil yn dangos rhywfaint o drafodaeth am y gwelliannau a wnaed gan y rhieni yn ystod y 6 mis diwethaf, gan arwain at dynnu enwau'r plant oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Roedd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r gwelliannau a nodwyd gan asiantaethau a oedd yn bresennol yn y Gynhadledd Adolygiad Amddiffyn Plant. Cynigiwyd y canllaw canlynol:

*'Mae angen cyfnod byr o fonitro ar sail plentyn mewn angen i sicrhau bod y newidiadau'n parhau, yna dylai gweithwyr proffesiynol gymryd dros y monitro a chau'r achos'.*

**Mai 2015** – Cyfarfod cychwynnol Plentyn mewn Angen. Yn bresennol roedd gweithiwr cymdeithasol, ymwelydd iechyd a gweithwyr proffesiynol ym maes addysgu. Nid oedd y rhieni'n bresennol. Fel arfer, trefnir dyddiad y cyfarfod cynllunio plentyn mewn angen cychwynnol yn y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant. Tybir felly yr oedd tad y plentyn yn ymwybodol o ddyddiad y cyfarfod hwn gan yr oedd yn bresennol yn y gynhadledd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar y ffeil i ddangos sut roedd y fam – neu p'un a oedd hi – wedi cael gwybod am y dyddiad. Rhannodd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn bresennol yn yr 'ymgais' hon i gynnal cyfarfod wybodaeth am ddirywiad ym mhresenoldeb y plant yn yr ysgol, cyflwr y plant a lles emosiynol y plentyn hŷn. Cynghorodd y gweithiwr cymdeithasol fod angen cyfarfod pellach o ystyried nad oedd y rhieni'n bresennol. Roedd nodiadau ffeil yn dangos bod y cyfarfod wedi cael ei aildrefnu ar gyfer 14 Gorffennaf 2015, felly tybir bod y gweithwyr proffesiynol yn y cyfarfod wedi gwneud nodyn o ddyddiad y cyfarfod a aildrefnwyd. Nid yw'r nodiadau ffeil yn dangos sut na phwy roddodd wybod i'r rhieni – er bod rhaid y soniodd rhywun wrth y fam oherwydd ei bod yn bresennol yn y cyfarfod a aildrefnwyd.

Yn ystod y cyfnod ymyrryd, cyflwynodd yr heddlu Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd pellach yn dilyn achosion o gam-drin domestig. Yn ogystal, daeth atgyfeiriadau dienw pellach i law'r asiantaethau yn nodi pryderon tebyg mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Mai 2015** – Cwyn gan gymydog. Y Gwasanaethau Tai yn rhoi gwybod eto bod ymddygiad gwrthgymdeithasol, dadleuon a chamddefnyddio sylweddau yn digwydd yn y cartref. Cynghorodd y gweithiwr cymdeithasol i'r sawl a alwodd ffonio'r heddlu a'i hysbysu o ganlyniad i ymweliad â'r cartref.

**Mehafin 2015** – Aelod o'r cyhoedd yn rhoi gwybod am achos o gam-drin domestig i'r heddlu. Swyddogion yr heddlu yn nodi bod y plant i'w gweld yn ddiogel ac yn iach. Cwblhawyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ac aseswyd bod y fam mewn perygl 'Canolig' o ran achosion pellach o gam-drin domestig. Rhannwyd y ffurflen â Chanolfan Menywod Caerdydd, y GIG a'r Tîm Derbyn ac Asesu. Rhoddwyd yr Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd hwn i Uned Ymchwilio i Gam-drin Plant Heddlu De Cymru hefyd. Cysylltodd swyddog o Uned Ymchwilio i Gam-drin Plant Heddlu De Cymru â'r gweithiwr cymdeithasol i roi gwybod iddi. Ar ôl derbyn yr Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd, cofnododd y gweithiwr cymdeithasol – *“Mae'r ffaith bod y fam mewn cyswllt â'r tad yn peri pryder ac mae angen i'r gweithiwr cymdeithasol drafod hyn â'r fam.”*

**Gorffennaf 2015** – Galwodd y fam yr heddlu ddwywaith i roi gwybod am achosion domestig lle'r aeth y tad i'w chartref ac achosi difrod. Daeth yn hysbys wedyn fod y tad yn ceisio casglu eiddo oddi yno. Cwblhawyd a rhannwyd yr Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd. Cysylltodd y fam â'r Gwasanaethau Plant hefyd, yn nodi bod ymddygiad y tad wedi mynd allan o reolaeth yn yr wythnosau blaenorol. Atgyfeiriwyd at yr heddlu a Chymorth i Fenywod Caerdydd.

**Gorffennaf 2015** – Aildrefnwyd y cyfarfod Plentyn Mewn Angen 'Cychwynnol'. Yn bresennol roedd gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr proffesiynol ym maes addysgu. Cyrhaeddodd mam y plentyn yn hwyr (tuag at ddiwedd y cyfarfod) gan nodi ei bod yn cael anawsterau â thad y plentyn a'i bod wedi cael ei chynghori i gysylltu â Chymorth i Fenywod/Uned Diogelwch Menywod. Nid oedd tad y plentyn yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Mae'r nodiadau ffeil yn dangos bod y cyfarfod wedi cael ei aildrefnu ar gyfer Medi 2015. Yn yr un modd â'r cyfarfod blaenorol, roedd yr athro a oedd yn bresennol yn ôl pob tebyg yn gwybod am y dyddiad a oedd wedi'i aildrefnu, ond nid yw'r nodiadau yn nodi sut y rhoddwyd gwybod i'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol eraill.

**Awst 2015** – Cyfarfod cofnodi goruchwyliaeth y Gwasanaethau Plant - Nid yw'r fam am dderbyn unrhyw wasanaethau cymorth, ond nid yw'r ysgol yn hapus i gau'r achos gan fod y plant yn flinedig a bod ymddygiad y brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol yn heriol. Mae cyfarfod cynllunio plentyn mewn angen wedi cael ei drefnu ar gyfer yn gynnar ym Medi a bydd yr achos yn cael ei gau os nad oes unrhyw bryderon difrifol yn dod i law. Dyma oedd yr ail sesiwn oruchwyllo ffurfiol wedi'i chofnodi mewn dros 3 mis (cynhaliwyd y sesiwn oruchwyllo gyntaf ym mis Ebrill 2015).

**Medi 2015** – Cyfarfod Plentyn mewn Angen 'Cychwynnol' a aildrefnwyd eto. Yr unig gofnod yn nodiadau ffeil y Gwasanaethau Plant o'r dyddiad hwn oedd *'Nid oedd unrhyw un yn bresennol'*. Fel y nodwyd uchod, gan nad oedd unrhyw dystiolaeth yn y ffeil i ddangos

sut y gwahoddwyd y rhieni a'r gweithwyr proffesiynol, nid yw'n glir a oedd unigolion yn ymwybodol o'r cyfarfod hwn. Dyma oedd y trydydd cyfarfod a fethwyd o ran cael presenoldeb llawn ac o ran y gwaith cynllunio 'plentyn mewn angen' parhaus. Ychydig iawn o fanylion sydd ynghylch cofnodion ffeil y Gwasanaethau Plant yn dilyn hynny am fynd ar drywydd y cyfarfod hwn a fethwyd yn amserol. Fodd bynnag, mewn ymweliad 'plentyn mewn angen' a gofnodwyd ym mis Hydref 2015, nodwyd bod y fam wedi datgan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf '*oherwydd gofal plant*' a phan gynigiwyd cyfarfod dilynol iddi, nodwyd bod y fam wedi gwrthod. Nid oes unrhyw gofnod o gysylltiad â thad y plentyn ar yr adeg hon.

**Rhagfyr 2015** – Mae'r Gwasanaethau Plant yn cau'r achos. Mae'r adroddiad cau yn nodi'r rhesymau canlynol dros y penderfyniad: '*Nid yw'r Gwasanaethau Plant wedi derbyn adroddiad o ddigwyddiad ers mis Gorffennaf 2015. Yn ystod y cyfnod 'plentyn mewn angen', nid yw (y tad) wedi bod dan ddylanwad cyffuriau yn ystod ymweliadau â chartref y teulu*'. Disgrifiwyd y plant yn '*hapus ac yn llai gwyllt na'r arfer*' ac '*mae golwg gwell arnynt ac maent yn gwisgo'n addas*'. Dywedodd y fam wrth y gweithiwr cymdeithasol nad oedd hi am gael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Gwrthododd y fam gymorth pellach ac mae'r adroddiad yn nodi '*Nid oes rôl i'r gweithiwr cymdeithasol ar hyn o bryd, ac mae'n amlwg bod y fam yn gallu bodloni anghenion y plant heb ymyrraeth gan y Gwasanaethau Plant ar yr adeg hon*'. Er y gellir cadarnhau'r sylwadau yn yr adroddiad cau ynghylch lles emosiynol y plant a'u hymddangosiad cyffredinol drwy wirio cofnodion yr ymweliadau â'r cartref ar yr adeg honno, mae'r llinell amser yn dangos yn glir nad yw'r sylw ynghylch 'dim adroddiadau am achosion' wedi dod i law yn gywir. Ar 28 Hydref 2015, cafwyd galwad gan gymydog yn datgan bod y plentyn wedi bod yn chwarae heb oruchwyliaeth yn yr ardd a bod ci '*wedi taro'r plentyn yng nghefn y pen*'. Ni weithredwyd ar hyn. Ar 7 ac 8 Rhagfyr 2015, cysylltodd y Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol â'r Gwasanaethau Plant i roi gwybod am sawl cwyn gan gymydogion. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar ffeil i ddangos bod y myfyriwr-weithiwr cymdeithasol (yr aseiniwyd y gwaith hwn iddo ar yr adeg honno) wedi dod â'r achos hwn i sylw ei aseswr ymarfer, a chan na chafodd ei gofnodi, mae'n ymddangos na chafodd unrhyw gamau pellach eu cymryd ar yr adeg honno. Ar 15 Rhagfyr 2015, cafodd y Gwasanaethau Plant alwad dienw ynghylch sibling y fam a oedd yn nodi pryderon am ymddygiad '*yмосодол ac anwadal*' yr unigolyn a'i bod yn camddeffnyddio alcohol. Roedd y cymydog yn datgan ei fod wedi clywed drysau'n cael eu cau'n glep, a '*gweiddi a sgrechian*' yng nghwmni'r plant. Roedd y cofnod o'r ymweliad 'plentyn mewn angen' dirybudd a gynhaliwyd ar yr un diwrnod yn dangos y trafodwyd y pryderon hyn a phryderon y Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol â'r fam. Gwadodd y fam yr honiadau yn erbyn ei sibling a dywedodd wrth y myfyriwr-gweithiwr cymdeithasol '*nad oedd yn poeni*' am yr adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai, o bosibl, arwain at gael ei throï allan o'i chartref. Yn hwyrach yn ystod y mis hwnnw – ar ddiwrnod cyn cau'r achos – cafodd y Gwasanaethau Plant alwad arall ynghylch sibling y fam, gan honni ei fod wedi bygwth ei ladd tua 5-6 mis yn ôl. Dywedodd yr unigolyn nad oedd wedi sôn wrth yr heddlu oherwydd ei fod yn ofni sibling y fam.

**Ionawr 2016** – Yr heddlu wedi cael galwad 999 gan y fam yn rhoi gwybod am achos o gam-drin domestig. Cafodd y tad ei arestio gan yr heddlu, ond roedd y fam yn gwrthod rhoi datganiad o gŵyn ac ni fu modd ei erlyn. Oherwydd hynny, cafodd y tad ei ryddhau heb unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yn ei erbyn. Arweiniodd y digwyddiad hwn at ymyrraeth bellach gan y Gwasanaethau Plant ac ymchwiliadau amddiffyn plant.

**Chwefror 2016** – Cynhaliwyd Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol mewn perthynas â'r holl blant. Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol yn unfrydol fod y plant mewn perygl a rhoddyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant dan y categorïau Esgeuluso a Cham-drin Emosiynol.

### **Arfer a dysgu trefniadol**

*Nodi pob pwylt dysgu unigol sy'n codi mewn achos (gan gynnwys amlygu arfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol*

#### **Arfer a dysgu trefniadol**

Fel rhan o'r Adolygiad Arfer Plant hwn, cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr a oedd ynghlwm wrth y plentyn hwn. Hoffai'r adolygwyr ddiolch i'r rheiny a ddaeth i'r digwyddiad dysgu ac am eu cyfraniad at yr hyn a ddysgwyd o'r adolygiad hwn. Gall achosion lle y gallai plentyn fod wedi marw neu ddod i niwed difrifol beri gofid ac rydym yn ddiolchgar i'r holl ymarferwyr am eu presenoldeb, eu gonestrwydd a'u parodrwydd i rannu eu barn a'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Fodd bynnag, roedd yn amlwg i'r adolygwyr ar ddechrau'r digwyddiad dysgu nad oedd rhai staff wedi cael eu paratoi'n briodol i ddod i'r cyfarfod ac roeddent yn bryderus gan ddisgwyl iddo fod 'am fai'. Roedd y pryder hwn wedi'i waethygu ymhellach gan y ffaith bod rhai o'r bobl yn bresennol yn credu bod y plentyn dan sylw'r adolygiad hwn wedi marw. Nid oedd rhai ymarferwyr wedi gweld eu llinell amser cyn mynd i'r cyfarfod, ac mae'n werth nodi y bu modd i'r rhai a oedd wedi gallu ei gweld ymlaen llaw ddod â gwybodaeth ychwanegol i'r digwyddiad ac felly manteisio'n llawn ar y profiad dysgu.

Byddai presenoldeb cynrychiolydd cyfreithiol yr awdurdod lleol wedi rhoi gwerth ychwanegol i'r digwyddiad ac wedi rhoi cyd-destun i rai o'r penderfyniadau trothwy a wnaed yn yr achos penodol hwn. Dylai cynrychiolaeth gyfreithiol gael ei hystyried wrth gynllunio digwyddiadau dysgu yn y dyfodol.

#### **Argymhelliad 1:**

**Dylai aelodau panel sy'n cynrychioli asiantaethau mewn Adolygiadau Arfer Plant ystyried gofyn am linell amser gan eu tîm cyfreithiol mewn achosion lle'r oedd ymyrraeth gyfreithiol yn rhan o'r rheolaeth achos.**

Cafodd llawer o'r arferion a'r dysgu sefydliadol a ystyrir isod eu codi yn y digwyddiad dysgu.

#### **Llais y Plentyn**

Mae adolygiadau blaenorol wedi pwysleisio '*...pwysigrwydd gweld, clywed a goruchwylio'r plentyn*' (Ofsted, 2011:6) ac maent wedi tynnu sylw at yr angen i blant gyfarfod â'u hymarferwyr ar eu pennau eu hunain, heb eu rhieni a'u gofalwyr, mewn amgylchedd lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel er mwyn iddynt allu sôn am eu pryderon. Yn yr achos hwn, yn ystod cyfnod cyntaf y gwaith cynllunio amddiffyn plant rhwng Chwefror 2013 ac Ebrill 2015, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn dangos arfer da a gwelodd y plentyn yn ei gartref yn ystod ymweliadau a gynlluniwyd ac ymweliadau dirybudd a gynhaliwyd ar amserau

amrywiol y dydd. Fodd bynnag, er bod y gweithiwr cymdeithasol wedi gweld y plentyn yn ystod pob ymweliad, roedd riant yn bresennol bob tro ac nid oes unrhyw gyfeiriad yn nodiadau'r gweithiwr cymdeithasol o fod wedi siarad â'r plentyn yn unigol. O ganlyniad, roedd hi'n anodd clywed 'llais' y plentyn. Trwy gydol y cyfnod a nodir yn y llinell amser, cydnabyddir bod y plentyn yn ifanc (2-3 oed) a bod ganddo ychydig o oedi o ran iaith a lleferydd, ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i'r plentyn fynegi ei deimladau. Serch hynny, ychydig iawn o dystiolaeth sydd o ymarferwyr yn defnyddio dulliau eraill, megis gwaith uniongyrchol yn defnyddio gweithgareddau hwyl i gael sylwadau'r plentyn. Mae adroddiadau eraill sy'n cynnwys plant ifanc wedi pwysleisio pa mor bwysig ydy hi bod ymarferwyr yn gwrandao ar yr hyn sydd gan blant hŷn y cartref i'w ddweud ac roedd y canfyddiadau'n datgan bod methu â siarad â phob plentyn yn y cartref yn arwain at golli 'elfennau hanfodol' yn ystod asesiadau (Ofsted, 2011:7). Yn yr achos hwn, ac eithrio sgysiau cyffredinol â siblingiaid y plentyn ynghylch yr ysgol, diddordebau a'i hoff ddillad, nid yw'n glir a oedd unrhyw bryderon, dymuniadau neu deimladau'r plant eraill wedi cael eu hystyried yn llawn tan fis Ionawr 2016. Mae'n amlwg bod y gweithiwr cymdeithasol wedi rhoi sylw at y gwaith o adrodd a chofnodi sylwadau yn ystod yr ymweliadau â'r cartref drwy gydol 2015. Er enghraifft, mae nodiadau'r ymarferydd yn disgrifio bod ymddygiad y plentyn yn 'wyllt' ac yn 'afreolus' gan gynnwys achosion rheolaidd o fwrw ei ben yn erbyn y sofffa, bwrw siblingiaid eraill, ceisio tynnu'r llenni i lawr a gorwedd ar y llawr yn esgus ei fod wedi marw. Mae angen i ymarferwyr gydnabod y gall ymddygiad plant fod yn ffordd o gyfathrebu (Wilson *et al*, 2008) ac mae ymchwil (Stanley, 2011) yn awgrymu y gallai ymddygiad bywiog ac anrhagweladwy plentyn fod yn arwydd o gysylltiad â cham-drin domestig. O ystyried arsylwadau'r ymarferydd ar ymddygiad gwyllt y plentyn, gellir dadlau ei fod yn gyfle wedi'i golli o ran siarad â'r plentyn am deimladau personol.

Ers hynny, mae Cyngor Caerdydd wedi cyflwyno model Arwyddion Diogelwch o weithio ledled y Gwasanaethau Plant. Un o brif nodau'r model Arwyddion Diogelwch yw sicrhau bod llais y plentyn yn glir, a bod yr offer y mae'r dulliau yn eu mabwysiadu yn tanategu'r gofyniad hwn.

### **Argymhelliad 2:**

**Dylai pob asiantaeth ystyried hyfforddiant i sicrhau bod dulliau amgen o gael llais y plentyn yn rhan o unrhyw hyfforddiant 'gwaith uniongyrchol â phlant' a bod y cysyniad yn rhan o'r broses fentora ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer.**

### **Argymhelliad 3:**

**Mae angen argyhoeddi Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro drwy'r Is-grŵp Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion bod Gweithwyr Cymdeithasol yn cynnig hyrwyddwr i blant sy'n derbyn cymorth a gofal gan yr awdurdod lleol.**

### **Cyfraniad y teulu at y broses adolygu**

Rhoddwyd gwybod i rieni'r plentyn yn ysgrifenedig o'r penderfyniad i ymgymryd â'r Adolygiad Arfer Plant hwn. Fodd bynnag, roedd y ddau riant yn honni nad oeddent wedi derbyn/gweld y llythyrau pan gysylltodd yr adolygwyr â hwy.



#### **Argymhelliad 4:**

#### **Dylai Paneli Adolygu Arfer Plant ystyried a yw llythyrau neu ddulliau cyfathrebu mwy addas, gan dibynnu ar eu hanghenion penodol, yn cael eu dosbarthu gan yr unigolyn mwyaf addas i roi gwybod i deuluoedd am y penderfyniad i gynnal Adolygiad Arfer Plant.**

Yn ystod y galwad ffôn â mam y plentyn ym mis Medi 2017, eglurodd ei bod wedi cael diagnosis iechyd meddwl, ac ers hynny nid yw'n agor post ac nid oes ganddi ffôn symudol gan fod '*cyfathrebu a negeseuon yn peri straen a gofid iddi*'. Roedd hi'n feirniadol o rôl y Gwasanaethau Plant, gan nodi y gallai mwy fod wedi cael ei wneud i gadw tad y plentyn draw ohoni, gan awgrymu y gallai cynrychiolwyr y Gwasanaethau Plant fod wedi '*...mynd â'r plant i'r ysgol bob dydd*'. Wedi dweud hynny, mae cofnodion ffeil y Gwasanaethau Plant o fis Gorffennaf 2014 yn dangos bod y ddau riant (a'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r achos) wedi cytuno i'r cynllun o ganiatáu'r tad i helpu gyda'r plant yn y cartref.

Mae rhieni'r plentyn wedi gwahanu erbyn hyn ac nid ydynt mewn cyswllt â'i gilydd. Mewn ymgais i gynnwys eu sylwadau yn yr adolygiad hwn, cafodd y ddau riant gyfle i gyfarfod yn annibynnol â'r adolygwyr ar ddau achlysur. Yn anffodus, er i'r rhieni ddewis dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r cyfarfodydd, methodd y ddau y cyfarfodydd, ac ni wnaeth yr un ohonynt geisio cysylltu â'r adolygwyr ar ôl hynny. Mae'n anffodus bod sylwadau'r teulu, oni bai am sylwadau'r fam a nodwyd uchod, ar goll o'r adroddiad hwn.

Gellir dadlau bod yr hyn a brofodd yr adolygwyr yn eu hymgais i ymgysylltu â'r rhieni yn ystod y broses adolygu yn adlewyrchu'r hyn a welwyd drwy gydol y llinell amser gyda'r cysyniad o '*gydymffurfiaeth ffug*' (Brandon *et al*, 2008:106) yn cael ei nodi gan y panel ac ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu – trafodir y ffactorau risg a'r hyn a ddysgwyd yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

#### **Cyfathrebu a Rhannu Gwybodaeth Rhwng Asiantaethau**

Mae ymchwil a chanfyddiadau o adolygiadau arfer plant blaenorol wedi dangos ers amser hir bod arferion effeithiol ar gyfer amddiffyn yn deillio o rannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon rhwng partneriaid amlasiantaeth (Munro, 2010). Mae'n glir o'r llinell amser yr oedd yr asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r teulu hwn yn derbyn llawer iawn o wybodaeth am weithgareddau'r teulu ac roedd yr adolygiad yn nodi nifer o achosion o arferion da o ran rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, gweithredodd y Gwasanaethau Plant ar unwaith ar ôl i'r heddlu eu hysbysu am yr achos o gam-drin domestig rhwng rhieni'r plant ym mis Ionawr. Fodd bynnag, mae'r llinell amser hefyd yn dangos achosion lle methwyd â rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, ni chafodd y cwynion a wnaed i Wasanaethau Tai Caerdydd ym misoedd Ebrill, Tachwedd a Rhagfyr 2015 gan gymdogion y teulu am gam-drin domestig, defnydd o ganabis, delio cyffuriau, defnyddio iaith gref yn y stryd a gweithio ar y plant, eu rhannu â'r heddlu. Yn yr un modd, nid oes cofnod o drafodaeth rhwng y gweithiwr cymdeithasol â'r heddlu mewn ymateb i'r adroddiadau am ddefnydd o gyffuriau. Tynnwyd sylw at y cyfleoedd eraill a gollwyd yn y digwyddiad dysgu, gydag ymarferwyr yn nodi'r adegau pan drosglwyddwyd gwybodaeth i rai asiantaethau partner ond na chymerwyd unrhyw camau gweithredu neu y bu oedi wrth ymateb. Er enghraifft, cafodd yr wybodaeth am y gŵyn a ddaeth i law ym mis Ebrill 2015 ei throsglwyddo o'r Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i'r Gwasanaethau Plant o fewn 3 diwrnod. Fodd bynnag, nid oedd y galwad ffôn yn ei gwneud yn amlwg p'un a oedd yr

achos 'ar agor' neu beidio ac nid oes cofnod o'r Gwasanaethau Plant yn gwneud cais, nac yn derbyn Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth mewn ymateb i'r wybodaeth hon – sydd, o bosibl, yn tynnu sylw at ddiffyg dealltwriaeth o'r broses atgyfeirio. Yn ogystal, er i'r Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drosglwyddo'r wybodaeth yn y galwad ffôn â'r Gwasanaethau Plant, ni wnaeth gael ei throsglwyddo drwy'r llwybr sefydledig ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy'r un pwynt cyswllt – yr Uned Cynhwysiant Cymdeithasol. Mewn ymateb i hyn, mae'r adolygiad wedi dysgu bod Gwasanaethau Tai Caerdydd ar hyn o bryd yn asesu eu proses i sicrhau ei bod yn fwy cadarn a bydd y staff yn cael hyfforddiant gloywi.

### **Argymhelliad 5:**

**Nododd yr ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu fod y timau tai yn ffynhonnell wybodaeth arbennig o ddefnyddiol a thynnwyd sylw at eu cofnodion helaeth o achosion fel enghraifft o arfer da. Dylai timau uwch reoli Awdurdod Lleol Caerdydd ddatblygu dull effeithiol o sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o'r Gwasanaethau Tai (gan gynnwys Gweithwyr Cymorth Tenantiaeth) mewn cyfarfodydd amlasiantaeth er mwyn annog rhannu gwybodaeth a gwaith yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol.**

Tynnodd y digwyddiad dysgu sylw at gyfle arall a gollwyd i'r asiantaethau ymyrryd yn gynt wrth drafod y galwad 999 a wnaed gan fam y plentyn i'r heddlu ddechrau mis Gorffennaf 2015. Daeth yr achos i law'r Gwasanaethau Plant oherwydd bod y swyddog a aeth i'r safle yn pryderu am '*...gyflwr y tŷ a bod plant yn byw yno*'. Dyma oedd yr ail achos a ddaeth i sylw'r Gwasanaethau Plant mewn wythnos ac yn dilyn hynny nododd y rheolwr tîm fod angen asesu statws perthynas y rhieni a chyflwr y cartref. Nododd yr adolygiad y gallai cyngor mwy clir ar reoli achos yn nodi amserlenni penodol a chyfarwyddiadau ynghylch ymyrraeth fod wedi atal mwy o ddigwyddiadau a sbarduno ymchwiliadau amddiffyn plant pellach a'r angen am gyngor cyfreithiol – yn enwedig o ystyried nad oedd y plant yn destun cynlluniau amddiffyn plant mwyach gan fod eu henwau wedi cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant 10 wythnos cyn hynny.

Fel rhan o'r model gwaith Arwyddion Diogelwch, mae grŵp llywio'r project yn llunio ffurflen atgyfeirio ar-lein newydd a fydd yn cynnwys cwestiwn ychwanegol o ran a yw asiantaethau wedi gwneud atgyfeiriadau blaenorol – ac felly'n rhoi anogaeth ychwanegol i'r unigolyn sy'n gyfrifol am bennu camau gweithredu pellach o'r atgyfeiriad.

Nododd yr adborth o'r digwyddiad dysgu fod y dull o wneud cais am wiriadau lles yr heddlu a'r defnydd ohonynt yn anghyson. Mae'r term 'gwiriad lles' yn cael ei ddefnyddio'n eang ar draws llawer o asiantaethau pan fydd asiantaeth allanol yn gofyn i'r heddlu ymweld â rhywun y maent yn credu iddo fod yn agored i niwed, neu mewn perygl am ystod eang o resymau. Clywodd y digwyddiad dysgu nad yr heddlu ddylai fod yn gyfrifol am y gwiriadau hyn yn y rhan fwyaf o achosion, nac am reoli'r risg na'r peryglon penodol. Mae 'gwiriad lles' arferol yn digwydd pan ofynnir i swyddogion yr heddlu fynd i safle i siarad â'r perchennog er mwyn gwirio ei fod yn fyw ac yn iach, hynny yw, i gadarnhau 'prawf bywyd' ac adrodd yn ôl i'r asiantaeth. Mae'r math hwn o gais yn gwbl briodol ac yn unol â dyletswyddau a sgiliau craidd yr heddlu. Fodd bynnag, mae ystod eang o ofynion eraill yn cael ei rhoi ar yr heddlu bellach, gan gynnwys:

- Gwiriadau ar unigolion sydd wedi methu apwyntiadau meddygol arferol.

- Gwiriadau ar unigolion nad ydynt wedi'u nodi 'ar goll', ond nad ydynt yn y lle y dylent fod neu y disgwylir iddynt fod.
- Gwiriadau i asesu a yw unigolyn wedi cymryd ei feddyginiaeth.

Mae'n annhebygol y bydd gan yr heddlu rôl yn y sefyllfaoedd uchod – oni bai bod yr asiantaeth sy'n gofyn yn medru egluro a rhoi tystiolaeth bod perygl enbyd i fywyd.

Tynnodd yr ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu sylw hefyd at y ffaith y gall presenoldeb yr heddlu gael effaith negyddol ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, neu sy'n gwella ar ôl argyfwng – yn benodol pan nad oes rheswm dros ymyrraeth yr heddlu.

Tynnodd ymarferwyr o wasanaethau tai a gwasanaethau Eirioli Trais Domestig Annibynnol sylw at y cymorth cadarnhaol yr oedd eu hadrannau wedi'i gael gan yr heddlu pan wnaethpwyd ceisiadau am wiriadau lles a phan gyflwynwyd tystiolaeth dda bod perygl enbyd o rywbeth difrifol ar fin digwydd, neu eisoes wedi digwydd. Roedd y gweithdrefnau'n llai clir o ran gwiriadau lles 'nad oeddent yn argyfwng' ac roedd ymarferwyr o'r Gwasanaethau Plant yn datgan eu bod wedi cael trafferth gan yr heddlu o ran derbyn ceisiadau o'r fath – mater sy'n aml yn creu tensiwn rhwng asiantaethau. Gellir dadlau bod y gwrthdaro yn cael ei waethygu gan y ffaith nad yw'r Tîm Dyletswydd Brys yn ymgymryd â gwiriadau o'r fath oherwydd diffyg adnoddau ac oherwydd cylch gorchwyl y tîm sy'n gyfrifol am Gaerdydd a'r Fro ar gyfer materion sy'n ymwneud â phlant ac oedolion.

### **Argymhelliad 6:**

**Dylai Is-grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro lunio polisi lleol sy'n ymwneud â gwiriadau lles a llunio canllaw ar wneud cais am wiriadau o'r fath fel y gall asiantaethau partner eu dilyn.**

Amlygodd y cyfarfodydd panel a'r digwyddiad dysgu a gynhaliwyd mewn perthynas â'r adolygiad hwn yr angen am sicrhau bod cyfle i rannu gwybodaeth, ei thrafod, myfyrio yn ei chylch, ei herio a chytuno ar gamau gweithredu gyda'i gilydd pan reolir achos ar sail amlasiantaeth. Yn sgil hyn, cafwyd llawer o drafodaeth am bresenoldeb asiantaeth partner yng nghyfarfodydd y Gwasanaethau Plant. Roedd yr adolygwyr yn cydnabod nad oes gofyniad statudol ar yr heddlu i fynychu'r holl gyfarfodydd – gyda'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn enghraifft. Serch hynny, o ystyried rhan yr heddlu yn ystod y cyfnod 26 mis o fod ar y gofrestr, dylai ystyriaeth fod wedi'i rhoi i'r heddlu a aeth i'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant mewn perthynas â'r teulu hwn ym mis Ebrill 2015 – yn enwedig oherwydd yr honnir i dad y plentyn fynd yn groes i'w amodau mechnïaeth tua'r un adeg trwy fynd i gartref y teulu yn feddw. Roedd adroddiad y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant gan y Swyddog Adolygu Annibynnol ar yr adeg honno yn dangos y bu ychydig o drafodaeth â'r rhai oedd yn bresennol. Yn wahanol i fam y plentyn, aeth y tad i'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant, er mai ei ymateb pan ofynnwyd iddo am y digwyddiad oedd *'Roeddwn wedi mynd i weld y pêl-droed gyda ffrindiau ac roeddwn wedi yfed. Ar adeg dychwelyd adref, roeddwn wedi mynd i'r tŷ yn awtomatig, ond dywedodd (y fam) nad oedd gobaith i mi fynd i mewn os oeddwn wedi yfed. Es i ddim yno i greu trafferth a chefais fy symud ymaith gan yr heddlu'* ac mae'n ymddangos na chafodd ei herio am hyn. Yn ogystal, nid oes unrhyw sôn bod yr unigolion a oedd yn bresennol yn y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn llwyr ymwybodol o amodau mechnïaeth y tad. Barn yr ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu, felly, oedd y byddai'r heddlu wedi bod mewn sefyllfa i gyfrannu'n sylweddol at y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ac mae'n bosibl y byddai wedi herio'r penderfyniad i dynnu enwau'r plant oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Wedi dweud hynny, tynnodd y digwyddiad dysgu sylw at y ffaith nad oedd gwahoddiadau i

rai o gyfarfodydd y Gwasanaethau Plant wedi cyrraedd y derbynnydd neu eu bod wedi cyrraedd yn rhy agos at y digwyddiad neu hyd yn oed ar ôl i'r digwyddiad fynd heibio.

### **Argymhelliad 7:**

#### **Dylai cynrychiolwyr Heddlu De Cymru adolygu gweithdrefnau a pholisïau o ran cael swyddog heddlu yn bresennol mewn Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant.**

Mae'r rhesymau y tu ôl i absenoldeb y fam o'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ar ddiwedd mis Ebrill 2015 yn aneglur – er efallai bod y galwadau a wnaeth i'r gwasanaethau brys yn y diwrnodau cyn y gynhadledd yn ei esbonio rhywfaint. Nid oes unrhyw dystiolaeth ddogfennol i ddangos y cafodd y peryglon a oedd yn gysylltiedig â hanes o gam-drin domestig rhwng y rheini eu hystyried gan gynnig cynhadledd ar wahân fel modd o leihau perygl posibl. Yn ogystal, nid yw'r cofnodion ar ffeil yn dangos unrhyw sôn am gyfarfod dilynol â mam y plentyn i drafod canlyniad y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant a'r penderfyniadau a wnaethpwyd wedi hynny. Ar y llaw arall, mae'r gweithiwr cymdeithasol a aseiniwyd ar adeg yr ail gyfnod o gofrestru amddiffyn plant (mis Chwefror 2016) yn dangos arfer da o ran cofnodi a rheoli risg. Mae'r llinell amser yn dangos bod y peryglon sy'n gysylltiedig â hanes trais domestig y rhieni wedi cael eu hystyried (yn y cyd-destun bod y ddau wedi cael eu gwahodd a bod angen i'r ddau fynd i'r gynhadledd amddiffyn plant). Mae'n anffodus, felly, bod y cais am gynhadledd ar wahân wedi cael ei wrthod gan y Swyddog Adolygu Annibynnol er gwaethaf y fam yn datgan ei bod yn amharod i fynd i'r un gynhadledd â'r tad. Mae cofnod ffeil a wnaed ym mis Chwefror 2016 yn amlinellu'r drafodaeth rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r Swyddog Adolygu Annibynnol a oedd o'r farn na fyddai'n cytuno i gynnal cynhadledd ar wahân oni bai bod gorchymyn penodol yn cael ei gyflwyno i nodi na all y rhieni gysylltu â'i gilydd. Cytunodd y Swyddog Adolygu Annibynnol i siarad â'r ddau riant cyn y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant, ond nid oes unrhyw gofnod ar ffeil i ddangos bod y drafodaeth hon wedi digwydd. Er eglurder, roedd Swyddog Adolygu Annibynnol gwahanol yn cadeirio'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant.

### **Argymhelliad 8:**

**Dylai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro adolygu'r arferion a'r gweithdrefnau presennol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr a phobl agored i niwed y mae angen iddynt fynd i Gynadledau Amddiffyn Plant. Dylid ystyried defnyddio cyfleusterau a fyddai'n gwella'r gallu i gyfrannu'n fwy effeithiol drwy weithredu 'mesurau arbennig' megis defnyddio sgriniau a thechnoleg Live-link.**

### **Cydymffurfiaeth ffug**

Roedd trafodaethau'r ymarferwyr a oedd yn deillio o fyfyrion ar y llinell amser yn dangos consensws clir o ran cydymffurfiaeth ffug y teulu ac efallai mai'r enghraifft fwyaf amlwg o hyn oedd diffyg ymgysylltiad y rheini ar ôl i enwau eu plant gael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a methu â mynd i'r cyfarfod Cynllunio Plentyn mewn Angen cychwynnol ar ddechrau mis Mai 2015. Erbyn yr adeg honno, roedd y gweithiwr iechyd eisoes yn codi pryderon am yr angen i ailgofrestru'r plant â meddyg teulu ac roedd gweithwyr proffesiynol

ym maes addysg yn pryderu am ddirywiad y plant o ran presenoldeb siblingiaid y plentyn yn yr ysgol.

#### **Argymhelliad 9:**

**Cynghorir meddygon teulu i roi gwybod i Dîm Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar unwaith os bydd teulu'n datgofrestru o'u practis. Bydd y Tîm Gofal Sylfaenol yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Plant o fewn 1 mis i ddatgofrestru er mwyn sicrhau nad yw anghenion unrhyw blentyn yn y teulu'n cael eu peryglu.**

Yn ogystal, mae'r llinell amser yn dangos cyfres o gwynion pellach a wnaed gan gymdogion mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol honedig, a gafodd ei ddwyn i sylw'r Gwasanaethau Plant, er clod i'r Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae'n amlwg bod y fam wedi cydweithredu rhywfaint â'r timau tai, er enghraifft, drwy fod ar gael ar gyfer ymweliadau â'r cartref a dychwelyd galwadau'r Tîm Rheoli Tenantiaeth. Mae hyn, o bosibl, yn dangos y perthynas dda oedd gan y fam â'r Gwasanaethau Tai ac fel y nodwyd yn y gwaith ymchwil, ymgais i dynnu sylw oddi ar ei diffyg ymgysylltu â gwasanaethau eraill ac osgoi codi amheuan (NSPCC, 2014). Yn yr achos hwn, roedd golwg or-optimistaidd ar gynnydd y rhieni a'u gallu i lywio neu dwyllo'r gwasanaethau i gredu eu bod yn cynnal newid cadarnhaol wedi achosi oedi yn y broses rheoli achos. Roedd y dyddiadau a aildefnwyd ar gyfer y cyfarfodydd cynllunio Plentyn mewn Angen Cychwynol o bosibl yn dyst i hyn.

Mae adolygiadau blaenorol wedi tynnu sylw at sefyllfaoedd lle mae gweithwyr proffesiynol wedi oedi neu osgoi ymyriadau oherwydd cydymffurfiaeth ffug y rhieni. Mae'r adolygiad hwn yn gyson â chanfyddiadau blaenorol ac yn pwysleisio bod angen i asiantaethau sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei roi i staff y rheng flaen mewn perthynas â nodi a gweithredu strategaethau o ran cydymffurfiaeth ffug neu ddiffyg cydymffurfiaeth yn gynnar yn y broses.

#### **Argymhelliad 10:**

**Dylai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ystyried dosbarthu'r Protocol Amlasiantaethol ar Weithio gyda Theuluoedd nad ydynt yn Cydweithredu â Materion Diogelu ymysg staff y Gwasanaethau Plant a'u hasiantaethau partner yn flynyddol.**

#### **Argymhelliad 11:**

**Dylai Is-grŵp Hyfforddi Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ystyried gwneud hyfforddiant 'Cydymffurfiaeth ffug/Ymdrin â Rhieni Anodd, Peryglus a Diddal' yn ofynnol i bob ymarferydd. Fel arall, dylid ystyried cynnwys yr hyfforddiant hwn yn rhan o raglen ymarfer 3 blynedd gyntaf gweithwyr cymdeithasol newydd raddedig.**

#### **Trothwyon a Gwneud Penderfyniadau**

Roedd y penderfyniad amlasiantaethol i barhau i weithio ar yr achos ar sail 'plentyn mewn angen' – er gwaethaf pryderon rhai asiantaethau a diffyg ymgysylltiad y rhieni – wedi

sbarduno trafodaeth fawr yn y digwyddiad dysgu ynghylch trothwyon a gwneud penderfyniadau o ran rheoli achos, neilltuo gweithwyr a mewnbwn cyfreithiol. Yn yr achos hwn, roedd ymarferwyr o rai o'r asiantaethau partner yn mynegi eu dryswch o ran y broses gyfreithiol sy'n gysylltiedig ag achosion gofal, ac roedd eraill yn gofyn pam na ailgychwynwyd gweithdrefnau amddiffyn plant pan fethodd rhieni'r plentyn – ac, yn wir, rai o'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r achos – â mynd i'r trydydd cyfarfod Plentyn mewn Angen a aildrefnwyd ar ddechrau mis Medi 2015. Ym mis Hydref 2015, pryd neilltuwyd y myfyriwr-weithiwr cymdeithasol i'r achos, roedd y cyfarfod cynllunio Plentyn mewn Angen yn dal heb ei gynnal ac fel y trafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, roedd asiantaethau ac aelodau'r gymuned yn parhau i godi pryderon am les y plentyn. Clywodd ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu fod yr achos hwn yn nodweddiadol o'r math a fyddai'n cael ei neilltuo i fyfyrwr-gweithiwr cymdeithasol yn ei flwyddyn olaf, yn enwedig o ystyried yr oedd y myfyriwr ar fin graddio. Yn ogystal, asesydd ymarfer y myfyriwr-gweithiwr cymdeithasol oedd y gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd i'r achos yn wreiddiol, felly roedd yna gysondeb o ran rheoli'r achos a gwybodaeth am yr achos. Wedi dweud hynny, mae tystiolaeth glir o esgeuluso o ran dim cofnod o'r achos yn cael ei drosglwyddo'n ffurfiol yng nghofnodion ffeil y Gwasanaethau Plant.

Er gwaethaf yr atgyfeiriadau parhaus gan aelodau'r cyhoedd, cafodd yr achos ei gau ar ddiwedd mis Rhagfyr 2015 i'r Gwasanaethau Plant. Yn yr un modd â neilltuo'r achos i'r myfyriwr-gweithiwr cymdeithasol, nid oes unrhyw gofnod i ddangos y cynhaliwyd trafodaeth goruchwyllo ffurfiol o ran cau'r achos. Clywodd yr ymarferwyr a oedd yn bresennol yn y digwyddiad dysgu mai penderfyniad tîm rheoli'r Gwasanaethau Plant oedd cau'r achos, nid y myfyriwr – penderfyniad a wnaed er gwaethaf y ffaith na chynhaliwyd y cyfarfod Plentyn mewn Angen erioed.

Mae'r adolygiad yn dangos y rôl hanfodol y mae aelodau'r gymuned yn ei chwarae wrth ddiogelu plant. Drwy gydol y cyfnod dan sylw, mae enghreifftiau clir lle mae aelodau'r cyhoedd wedi cysylltu ag asiantaethau – gan gynnwys y Gwasanaethau Plant – i fynegi pryderon difrifol ynghylch y plant ac ymddygiad ac addasrwydd y rhieni. Ac eto, nid yw bob amser yn glir pa gamau gweithredu (os o gwbl) a gymerwyd ac mae'r penderfyniad i gau'r achos yn dangos na chafodd yr atgyfeiriadau a wnaed gan y cyhoedd eu cymryd o ddifrif. Mae'r ffaith y cafwyd achos arall o drais domestig bedair wythnos ar ôl i'r achos gau yn profi'r pwynt hwnnw.

Fel achos 'plentyn mewn angen', nodwyd yr oedd gan y rhieni'r hawl i ddewis i beidio ag ymgysylltu neu dderbyn gwasanaethau. Ac eto, mae'r adolygiad hwn o bosibl yn dangos pwysigrwydd llunio cronoleg o ddigwyddiadau pwysig. Gall cronolegau fod o gymorth mawr wrth asesu amgylchiadau'r plentyn ar draws asiantaethau a rhoi tystiolaeth o brofiad rhianta yn y gorffennol, gan gynnwys achosion blaenorol posibl o gydymffurfiaeth ffug. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod cronoleg gyfredol wedi cael ei llunio na'i chynnal gan staff y Gwasanaethau Plant a neilltuwyd i weithio gyda'r teulu hwn. Gall diffyg cronoleg fod yn fater systemig sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau'r systemau cofnodion electronig a/neu'n fater hyfforddi ehangach sy'n gysylltiedig yn fwy ag arfer proffesiynol.

## **Argymhelliad 12:**

**Dylai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ystyried cyflwyno templed llinell amser amlasiantaeth safonol cyson y bydd pob asiantaeth yn gyfrifol am ei chwblhau yn y gynhadledd amddiffyn plant gyntaf. Dylai'r llinell amser asiantaeth**

gael ei chynnal a'i diweddarau ym mhob cyfarfod craidd gan asiantaethau unigol a'i chyflwyno fel rhan o'r adroddiad i'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant.

### **Argymhelliad 13:**

Dylai pob asiantaeth sicrhau bod dull safonol o gasglu gwybodaeth, asesu risg a dosbarthu gwybodaeth o bob ffynhonnell, gan gynnwys gan aelodau'r gymuned, ar waith. Os ystyrir bod yr wybodaeth hon o fewn model asesu neu frysbenno, byddai sefydliadau mewn gwell sefyllfa i reoli risgiau cysylltiedig, blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn yn ogystal â llunio cynlluniau tactegol i gydlynu camau gweithredu pellach.

### **Prif enghreifftiau o arferion effeithiol**

Wrth lunio'r adroddiad hwn, nododd yr adolygwyr nifer o enghreifftiau o arferion proffesiynol effeithiol. Mae'r cynlluniau amddiffyn plant yn dangos bod ymyriadau priodol yn gysylltiedig â cham-drin domestig, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl wedi cael eu nodi ar gyfer rheini'r plant. Gwelwyd bod canolbwyntio ar y meysydd hyn yn ffordd o adfer a gwella sgiliau rhianta'r fam a'r tad ac roedd gwahaniad cychwynnol y rhieni yn hollbwysig i ddod â chysylltiad y plant â thrais domestig i ben yn y tymor byr.

Er na chafodd ei nodi ym mhrif ran yr adroddiad hwn, cafodd effeithlonrwydd Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth Caerdydd ei nodi fel enghraifft arall o arferion da gan ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu. Yn yr achos hwn, wrth gasglu gwybodaeth a oedd yn canolbwyntio ar risg, roedd modd cael darlun fwy eang – gan hwyluso'r penderfyniadau diogelu ac ymyriadau perthnasol. Ers cyflwyno Hyb Diogelu Amlasiantaethol Caerdydd, nodwyd bod gwybodaeth o'r fath bellach yn cael ei rhannu fel rheol yn gynharach o lawer yn y broses, gan ddangos un o'r prif amcanion gweithredu.

Roedd yr ymarferwyr oedd yn bresennol yn y digwyddiad dysgu hefyd yn awyddus i roi clod i gydweithwyr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru am eu gwaith arbed bywydau. Wrth ymateb yn gyflym o adeg ateb yr alwad gychwynnol, ymdriniodd criw'r ambiwlans yn gyflym â sefyllfa newidiol gan gasglu gwybodaeth ar y ffordd i geisio dod o hyd i'r fam a'r plentyn a oedd wedi symud o safle'r digwyddiad.

### **CYFEIRIADAETH:**

Brandon, M., Belderson, P., Warren, C., Howe, D., Gardner, R., Dodsworth, J., Black, J. (2008) *Analysing child deaths and serious injury through abuse and neglect: What can we learn? A biennial analysis of serious case reviews 2003-2005*. Llundain. Adran Addysg a Sgiliau. t. 106.

Munro, E. (2010) *The Munro Review of Child Protection Interim Report. The Child's Journey*. Ar gael yn: [www.gov.uk/government/collections/munro-review](http://www.gov.uk/government/collections/munro-review) [Wedi'i ddarllen: Ion 2018]

NSPCC. (2014) *Disguised compliance: learning from case reviews. Summary of risk factors and learning for improved practice around families and disguised compliance*. Ar

gael yn: [www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-protection-system/case-reviews/learning/discused-compliance](http://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-protection-system/case-reviews/learning/discused-compliance) [Wedi'i ddarllen: Rhagfyr 2017]

Ofsted (2011) *The voice of the child: learning lessons from serious case reviews*. t6. Ar gael yn: [www.ofsted.gov.uk/publications/100224](http://www.ofsted.gov.uk/publications/100224). [Wedi'i ddarllen: Ionawr 2018]

Stanley, N. (2011) *Children Experiencing Domestic Violence. A Research Review*. Dartington. Ymchwil wrth ymarfer.

Wilson, K., Ruch, G., Lymbery, M., Cooper, A. (2008) *Social work: An introduction to contemporary practice*. Caergrawnt. Pearson.

### **Gwella Systemau ac Arfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer y BDP a'i asiantaethau aelod gan ragweld canlyniadau gwella:-*

(Yr hyn y mae angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol a sut bydd yn gwella systemau ac arfer yn y dyfodol i gefnogi arferion)

- 1. Dylai aelodau panel sy'n cynrychioli Asiantaethau mewn Adolygiadau Arfer Plant ystyried gofyn am linell amser gan eu tîm cyfreithiol mewn achosion lle'r oedd ymyrraeth gyfreithiol yn rhan o'r rheolaeth achos.**
- 2. Dylai pob asiantaeth ystyried hyfforddiant i sicrhau bod dulliau amgen o gael llais y plentyn yn rhan o unrhyw hyfforddiant 'gwaith uniongyrchol gyda phlant' a bod y cysyniad yn rhan o'r broses fentora ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer.**
- 3. Dylid argyhoeddi Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro drwy'r Is-grŵp Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion bod y Gweithwyr Cymdeithasol yn cynnig hyrwyddwr i blant sy'n derbyn cymorth a gofal gan yr awdurdod lleol.**
- 4. Dylai Paneli Adolygu Arfer Plant ystyried a yw llythyrau neu ddulliau cyfathrebu mwy addas, gan ddibynnu ar eu hanghenion penodol, yn cael eu**



dosbarthu gan yr unigolyn mwyaf addas i roi gwybod i deuluoedd am y penderfyniad i gynnal Adolygiad Arfer Plant.

5. Nododd yr ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu bod y timau tai yn ffynhonnell wybodaeth arbennig o ddefnyddiol a thynnwyd sylw at eu cofnodion helaeth o achosion fel enghraifft o arfer da.  
Dylai timau uwch reoli Awdurdod Lleol Caerdydd ddatblygu dull effeithiol o sicrhau bod cynrychiolaeth briodol gan y Gwasanaethau Tai (gan gynnwys Gweithwyr Cymorth Tenantiaeth) mewn cyfarfodydd amlasiantaeth er mwyn annog rhannu gwybodaeth a gwaith yr Hyb Diogelu Amlasiantaeth.
6. Dylai Is-grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro lunio polisi lleol sy'n ymwneud â gwiriadau lles a llunio canllaw ar wneud cais am wiriadau o'r fath fel y gall asiantaethau partner eu dilyn.
7. Dylai cynrychiolwyr Heddlu De Cymru adolygu gweithdrefnau a pholisïau o ran cael swyddog heddlu yn bresennol mewn Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant.
8. Dylai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro adolygu'r arferion a'r gweithdrefnau presennol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr a phobl agored i niwed y mae angen iddynt fynd i Gynadleddau Amddiffyn Plant. Dylid ystyried defnyddio cyfleusterau a fyddai'n gwella'r gallu i gyfrannu'n fwy effeithiol drwy weithredu 'mesurau arbennig' megis defnyddio sgriniau a thechnoleg Live-link.
9. Dylai gwybodaeth am rieni sy'n datgofrestru o Wasanaethau Gofal Sylfaenol gael ei rhannu ag ymarferwyr o dimau Cymorth ac Atal Cynnar yng Nghaerdydd (yn unol â Strategaeth Cymorth Cynnar Cyngor Caerdydd) a Bro Morgannwg o fewn 1 mis i sicrhau nad yw'n andwyol i anghenion y plant.
10. Dylai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro sicrhau bod y Protocol Amlasiantaeth ar Weithio gyda Theuluoedd nad ydynt yn Cydweithredu â Materion Diogelu yn cael ei ddsbarthu ymysg staff y Gwasanaethau Plant a'u hasiantaethau partner yn flynyddol.
11. Dylai Is-grŵp Hyfforddi Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ystyried gwneud hyfforddiant 'Cydymffurfiaeth Ffug/Ymdrin â Rhieni Anodd, Peryglus a Di-ddal' yn ofynnol i bob ymarferydd. Fel arall, dylid ystyried cynnwys yr hyfforddiant hwn yn rhan o raglen ymarfer 3 blynedd gyntaf gweithwyr cymdeithasol newydd raddedig.
12. Dylai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ystyried cyflwyno templed llinell amser amlasiantaeth safonol cyson y bydd pob asiantaeth yn gyfrifol am ei chwblhau yn y gynhadledd amddiffyn plant gyntaf. Dylai llinell amser yr asiantaeth gael ei chynnal a'i diweddarau ym mhob cyfarfod craidd gan asiantaethau unigol a'i chyflwyno fel rhan o'r adroddiad i'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant.

**13. Dylai pob asiantaeth sicrhau bod dull safonol o gasglu gwybodaeth, asesu risg a dosbarthu gwybodaeth o bob ffynhonnell, gan gynnwys gan aelodau'r gymuned, ar waith. Os ystyrir yr wybodaeth hon o fewn model asesu neu frysbenneu, byddai sefydliadau mewn gwell sefyllfa i reoli risgiau cysylltiedig, blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn yn ogystal â llunio cynlluniau tactegol i gydlynu camau gweithredu pellach.**

**Datganiad gan yr Adolygwr/wyr**

<b>ADOLYGWR 1</b>	Karen Haslett <i>Prif Weithiwr Cymdeithasol, Tîm Iechyd ac Anableddau Plant, Gwasanaethau Plant Caerdydd</i>	<b>ADOLYGWR 2 (fel sy'n briodol)</b>	Dinlle Francis <i>Ditectif Brif Arolygydd, Adran Safonau Proffesiynol, Heddlu De Cymru</i>
<b>Datganiad o annibyniaeth ar yr achos</b> <i>Datganiad Cymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i>		<b>Datganiad o annibyniaeth ar yr achos</b> <i>Datganiad Cymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i>	
Rwy'n gwneud y datganiad canlynol cyn ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:		Rwy'n gwneud y datganiad canlynol cyn ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid wyf wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r plentyn na'r teulu, nac wedi cael cyngor proffesiynol ar yr achos</li> <li>Nid wyf wedi rheoli'r ymarferydd/wyr cysylltiedig yn uniongyrchol.</li> <li>Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol gennyf i gynnal yr adolygiad</li> <li>Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid wyf wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r plentyn na'r teulu, nac wedi cael cyngor proffesiynol ar yr achos</li> <li>Nid wyf wedi rheoli'r ymarferydd/wyr cysylltiedig yn uniongyrchol.</li> <li>Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol gennyf i gynnal yr adolygiad.</li> <li>Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion fel a nodir yn y Cylch Gorchwyl.</li> </ul>	

**Adolygwr 1**  
(Llofnod)

.....

**Adolygwr 2**  
(Llofnod)

.....

<b>Enw</b> (Llythrennau breision)	Karen Haslett	<b>Enw</b> (Llythrennau breision)	Dinlle Francis
<b>Dyddiad</b>	.....	<b>Dyddiad</b>	.....

<i>Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)</i>	.....
<b>Enw</b> (Llythrennau breision)	.....
<b>Dyddiad</b>	.....

### Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

**Proses Adolygiad Ymarfer Plant**

*I'w cynnwys yma yn gryno:*

- Y broses a ddilynir gan y BDP a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu
- Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a ddaeth iddo
- Roedd aelodau'r teulu wedi cael gwybod, a gofynnwyd am eu safbwyntiau a'u cynrychiolwyd gydol y digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt.

Rhoddodd Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro (BRhDPCF) wybod i Lywodraeth Cymru yn 2016 ei fod yn comisiynu Adolygiad Arfer Plant mewn perthynas ag ADP Achos 2/2016.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel yn cynnwys:

- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Plant Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaethau Tai Cyngor Caerdydd
- Gwasanaeth Addysg Cyngor Caerdydd
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol (Cymru)
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Uned Fusnes BDPRh Caerdydd a'r Fro

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 19 Hydref 2017 a fynychwyd gan gynrychiolwyr o'r asiantaethau canlynol:

- Gwasanaethau Plant Caerdydd
- Gwasanaethau Cymorth ac Ymriadau i Deuluoedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Tai Cyngor Caerdydd
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol (Cymru)
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Rhoddwyd gwybod i rieni'r plentyn yn ysgrifenedig o'r penderfyniad i ymgymryd â'r Adolygiad Arfer Plant hwn. Cafodd y ddau riant gyfle i gyfarfod yn annibynnol â'r adolygwyr ar ddau achlysur ar wahân er mwyn cael eu sylwadau. Fodd bynnag, er i'r rhieni ddewis dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r cyfarfodydd, methodd y ddau y cyfarfodydd, ac ni wnaeth yr un ohonynt geisio cysylltu â'r adolygwyr ar ôl hynny. Mae'n anffodus bod sylwadau'r teulu, oni bai am sylwadau cychwynnol y fam a nodwyd yn yr adroddiad, ar goll o'r adroddiad hwn.

Bydd yr adolygwyr a'r cadeirydd yn ceisio rhannu'r dysgu o'r adroddiad â'r rhieni cyn ei gyhoeddi.

Y teulu wedi gwrthod cymryd rhan

### At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad derbyn yr wybodaeth .....

Dyddiad anfon llythyr cydnabyddiaeth at Gadeirydd y BDP .....

Dyddiad anfon at arolygiaethau perthnasol/Arweinwyr Polisi .....

Asiantaethau	Ie	Na	Rheswm
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AGIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

## **Adolygiad Arfer Plant BRhDPCF 02/2016**

### **Adolygiad Estynedig o'r Cylch Gorchwyl**

#### **Cefndir**

Ar 22 Mawrth 2016 cafodd y plentyn ei ddarganfod yn ei gyfeiriad cartref gan ei chwaer yn crogi, ar ôl cael ei ddal mewn tegan mwnci a oedd yn hongian o lefel uchaf gwely bync. Roedd y plentyn yn anymwybodol ac fe'i ddisgrifiwyd yn welw ac yn ddifywyd. Roedd y plentyn yn oer iawn i'w gyffwrdd. Roedd y plentyn yn y cartref gyda'i fam a'i sibliingiaid ar adeg y digwyddiad. Gofynnwyd i un o sibliingiaid y plentyn ffonio am ambiwlans, ond nid oedd y ffôn yn gweithio. Aeth y fam i'r tu allan i ofyn i ddefnyddio ffôn rhywun arall. Roedd y fam yn teimlo bod yr ambiwlans yn cymryd gormod o amser i gyrraedd felly gyrrodd y fam at gyfeiriad ei mam rownd y gornel a chyrrhaeddodd y parafeddygon ychydig yn ddiweddarach. Cafodd y plentyn ei gludo i'r ysbyty a chafodd ei ryddhau o'r fan honno heb unrhyw anafiadau hirdymor.

Cafodd enwau'r plentyn a'i sibliingiaid ar adeg y digwyddiad eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant dan y categorïau cam-drin emosiynol ac esgeulustod. Cafwyd pryderon yn y gorffennol am gam-drin domestig yng nghartref y teulu a phan gyrhaeddodd swyddogion safle'r digwyddiad hwn, roedd pryderon difrifol am gyflwr y cartref.

Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth ar 24/03/2016 a chodwyd pryderon sylweddol gan yr holl weithwyr proffesiynol bod natur y digwyddiad hwn yn ddamweiniol, ond roedd yn gysylltiedig â diffyg goruchwyliaeth. Disgrifiodd y pediatregydd y digwyddiad hwn yn farwolaeth fu bron a digwydd a bod y crogi wedi bron â'i ladd, ac roedd yn pryderu am y diffyg gofal/goruchwyliaeth. Roedd cyflwr y cartref yn peri pryder ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Roedd diffyg ymgysylltiad gan y fam yn y gorffennol yn peri pryder ac yn dangos risgiau diogelu. Gallai'r canlyniad fod wedi bod yn andwyol ac roedd gweithwyr proffesiynol o'r farn bod yr wybodaeth a rannwyd yn y cyfarfod strategaeth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Arfer Plant.

#### **Amserlen yr Adolygiad:**

22 Mawrth 2015 – 22 Mawrth 2016

#### **Meini Prawf ar gyfer adolygiad estynedig**

Y meini prawf ar gyfer adolygiadau estynedig wedi'u gosod yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Ynghyd i Ddiogelu Pobl Cyf. 2 – Adolygiadau Arfer Plant yw:

**3.12** Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad arfer plant estynedig ar gyfer unrhyw un o'r achosion canlynol, o fewn ardal y Bwrdd, os gwyddys neu yr honnir bod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso a bod y plentyn wedi:

- marw; neu
- wedi cael anaf sy'n peryglu bywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ei ddatblygiad; a bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu yn derbyn gofal (gan gynnwys person sydd wedi troi'n 18 oed ond a oedd yn blentyn a oedd yn derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol -
- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad ar blentyn

### **Tasgau Craidd**

- Pennu p'un a yw penderfyniadau a chymau yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd.
- Archwilio gweithio rhwng asiantaethau a'r ddarpariaeth gwasanaeth i'r plentyn a'r teulu.
- Pennu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chymau yn canolbwyntio ar unigolion.
- Ceisio cyfraniadau at yr adolygiad gan aelodau teulu priodol a rhoi gwybod iddynt am brif agweddau cynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

### **Yn ogystal â'r broses adolygu, dylid ystyried y canlynol:**

- P'un a oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am y plentyn a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi'i ystyried yng ngwaith asesu, cynllunio a phenderfynu'r gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r plentyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r plentyn?
- P'un a oedd y cynllun amddiffyn plant (a/neu'r cynllun plentyn sy'n derbyn gofal neu'r cynllun llwybr) yn gadarn, ac yn briodol i'r plentyn hwnnw, y teulu a'u hamgylchiadau.
- P'un a oedd y cynllun wedi'i weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol. A wnaeth yr holl asiantaethau gyfrannu'n briodol at ddatblygiad a darpariaeth y cynllun amlasiantaeth?

- Pa agweddau ar y cynllun weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda a pham? Y graddau y gwnaeth asiantaethau herio ei gilydd o ran effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y canlyniadau cytunedig i'r plentyn. P'un a gafodd y protocol i weithwyr proffesiynol ei ddefnyddio ai peidio.
- P'un a gafodd dyletswyddau statudol perthynol asiantaethau sy'n gweithio gyda'r plentyn a'r teulu eu diwallu ai peidio.
- P'un a oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos a wnaeth atal asiantaethau rhag diwallu eu dyletswyddau ai peidio (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

### **Tasgau Penodol y Panel Adolygu**

- Nodi a chomisiynu adolygwr/wyr i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â'r canllaw ar gyfer adolygiadau estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, creu amserlen a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau brys sydd eisoes wedi'u cymryd.
- Creu llinell amser, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau cyfunol.
- Cynllunio gyda'r adolygwr/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, gan gynnwys nodi cyfranogwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygwr/wyr y trefniadau cyswllt gyda'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyd ac ystyried yr adroddiad adolygu arfer plant drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i ddiwallu, yr ymatebir i'r ddamcaniaeth gychwynnol a bod unrhyw ddysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl cwblhau'r adolygiad a chyn ei gyhoeddi.

### **Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant**

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

- Y Panel Adolygu i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Bwrdd yn eu hanfon i'r asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau terfynol cyn eu cwblhau a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth disgwylidig yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno i rannu gwbodaeth ag asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i'r cyfryngau yn gysylltiedig â'r adolygiad hyd nes i'r broses gael ei chwblhau.